

20
21
CHWEFROR

Meddwl Ymlaen:

BLAENORIAETHAU, GWYTNWCH A GWELEDIGAETHAU
POBL IFANC Y TU HWNT I'R PANDEMIG COVID-19

Tîm Pobl Ifanc yn Arwain



Y tîm ymchwil:

Tim Pobl Ifanc yn Arwain: Cai, Chawan, Elen, Eva, Ibby, Jessica, Kim, Rhys, Serena, Tilly

tnlcommunityfund.org.uk/pobl-ifanc-yn-arwain-cymru

Gyda chefnogaeth: Joshua Coles-Riley, Arielle Tye, Nathan Williams, Dean Flowers, Dr. Jonathan Gunter.

Cyflwyniad

Mae'r Tîm Pobl Ifanc yn Arwain Cymru (PIYA) yn dîm o bobl ifanc a benodwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (CGLG) yng Nghymru i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael ei gynnwys yn y gwaith a wnânt.

Mae ProMo-Cymru, mewn partneriaeth â'r Ministry of Life (MoL), wedi bod yn gweithio gyda'r tîm yma i ddylunio a chyflwyno prosiect ymchwil dros gyfnod deg wythnos. Ar 19eg Tachwedd 2020, rhannodd y tîm ymchwil gyflwyniad o'r casgliadau gydag aelodau tîm CGLG.

Mae'r tîm TPIYA wedi cyflawni'n llwyddiannus:

- 60 Cyfweiliad strwythuredig gydag ymchwilwyr cyfoed yn arwain
- 51 Arolwg digidol
- 11 Cyfweiliad lled-strwythuredig / Grwpiau ffocws

Amcanion yr ymchwil

Penderfynodd CGLG a PIYA ar amcanion yr ymchwil:

- Helpu CGLG i ddeall blaenoriaethau pobl ifanc ledled Cymru
- Helpu CGLG i adnabod yr hyn a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i wytnwch pobl ifanc yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol

- Archwilio gweledigaethau pobl ifanc ar gyfer dyfodol 'Cymru' y tu hwnt i Covid-19
- Amlygu lleisiau sydd ddim yn cael eu clywed
- Helpu pobl ifanc o gymunedau ledled Cymru i ymuno â'i gilydd
- I gael effaith, waeth pa mor fach

Roedd yr ymchwil hefyd yn canolbwyntio ar yr hyn y mae gwytnwch yn ei olygu i bobl ifanc.

Dylunio ymchwil a'r cynllun ymchwilio

Ein dull o weithio oedd cynnal cyfres o gyfweiliadau strwythuredig a grwpiau ffocws a'u cyfuno ag arolwg digidol i grwpiau wedi'u targedu.

Penderfynwyd ar hyn gan fod yr ymchwilwyr ifanc yn y sefyllfa unigryw o fod wedi'u lleoli mewn sawl ardal ddaearyddol ac o gefndiroedd gwahanol ledled Cymru.

Yr ymchwilwyr ifanc oedd yn hwyluso'r cyfweiliadau strwythuredig gydag aelodau o'u cymunedau, gan gynnwys:

- Cymunedau gwledig a threfol
- Cymunedau ffermio
- Siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- Grwpiau ffydd
- Grwpiau chwaraeon
- Prifysgolion
- Ysgolion a cholegau
- Rhai sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth nac hyfforddiant

Dosbarthwyd yr arolwg digidol trwy ymgysylltiad uniongyrchol gyda gweithwyr proffesiynol.

Prif flaenoriaethau a nodwyd gan bobl ifanc

Iechyd meddwl

Y flaenoriaeth a grybwyllwyd fwyaf yn yr arolygon a'r cyfweiliadau strwythuredig oedd iechyd meddwl. Roedd y materion yn gysylltiedig â llawer o'r blaenoriaethau eraill fel gofodau cymunedol a gwyrdd, yn ogystal â chael mynediad at addysg a'r celfyddydau.

"Mae iechyd meddwl yn chwarae rhan fawr ym mywydau pobl ifanc ac mae'n cael effaith ar bopeth arall."

Yn ogystal â hyn, credwyd yn eang nad oedd mynediad digonol at wasanaethau iechyd meddwl ac roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo nad oedd y gwasanaethau hyn yn cyfeirio'n ddigonol at flaenoriaethau pobl ifanc. Rhywbeth arall codwyd fel angen ei wella oedd y trosiad o wasanaethau iechyd meddwl ieuencid i wasanaethau oedolion, ac mae'r mater hwn wedi'i grybwyll gan eraill hefyd (Senedd Ieuencid Cymru, 2019). Dywedodd rhai bod diffyg cyfeirio ac nad oedd digon o arian yn cael ei roi i wasanaethau iechyd meddwl fel y gallant fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc yng Nghymru. Dywedodd un person ifanc:

"Roedd cael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl yn broses araf iawn. Ychydig iawn o gefnogaeth cefais i wella er mwyn dychwelyd i addysg. Roeddwn yn gwneud fy hun yn fwy sâl wrth weithio ac nid oedd gwasanaethau ar gael i'm nghefnogi."

Mae'r dyfyniadau canlynol yn ymwneud â sylwadau gan bobl ifanc ar yr effaith positif o fannau gwyrdd ar iechyd meddwl:

"Yr awyr agored - gan ei fod yn le ar gyfer meddwlgarwch a mwynhad. Mae'n ddihangfa o unrhyw bwysau mewn cymdeithas."

"Mae gofodau gwyrdd yn bwysig iawn. Mae yna gysylltiad gydag iechyd meddwl am wn i. Rwy'n credu ei fod yn bwysig ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol. Wel, mae'n help, mae'r aer sydd yn cael ei anadlu, yr ecosystemau a natur yn gwella'r meddylfryd. Rwy'n caru'r gofodau gwyrdd sydd gennym."

Nododd llawer o bobl ifanc hefyd bod y celfyddydau wedi bod yn help mawr iddynt wrth ymdopi gyda'r pandemig.

Cyflogaeth

Yr ail flaenoriaeth fwyaf i bobl ifanc oedd cyflogaeth. Roedd cyflogaeth yn cael ei ystyried yn bwysig i bobl ifanc oherwydd y rôl mae'n ei chwarae i gael mynediad at gyfleoedd ac annibyniaeth. Dywedodd un o'r rhai cyfwelwyd:

“Rydw i eisiau bod mewn swydd sy'n caniatáu i mi brynu tŷ, magu teulu ac ati.”

Roedd sylwad arall yn ategu pwysigrwydd cyflogaeth ar eu dyfodol:

“Mae'n bwysig gallu adeiladu tuag at ddyfodol.”

Tra bod un arall yn pwysleisio sut roedd hyn yn caniatáu i flaenoriaethau eraill gael eu cyflawni:

“Yn amlwg, o ystyried yr hinsawdd a'r ansicrwydd o ddiweithdra, mae'n eistedd ar frig y pyramid fel ryw fath o ddiogelwch wrth symud ymlaen.”

Roedd llawer o bobl ifanc o'r farn nad oedd ganddynt fynediad digonol at gyfleoedd cyflogaeth ac felly ddim yn gallu cynilo digon o arian i symud o gartref. Er yr oedd canfyddiad bod gwasanaethau cymorth cyflogaeth yn bodoli, roedd llawer o'r farn nad oedd cyfeiriadau digonol i gael mynediad at y cyfleoedd yma.



Cymuned a bod yn rhan ohoni

Codwyd y term 'cymuned' fel blaenoriaeth gan bobl ifanc hefyd. Canfod bod llawer iawn o alw ac angen am 'ofodau diogel' a gofodau cymdeithasu yn arbennig i bobl ifanc.

“Cymuned a chymryd rhan. Mae pobl ifanc yn aml yn cael eu rhoi o'r neilltu fel rhai sydd ddim yn cymryd rhan.”

“Un o'r prif flaenoriaethau sydd gen i yn bersonol yw'r gallu i gymdeithasu yn y gymuned rydw i'n byw ynddi.”

Ymhellach i hyn, mae'r syniad o 'gymuned' a bod yn rhan o 'gymuned ehangach' wrth wneud pethau fel gwirfoddoli a chael llais mewn penderfyniadau sydd yn cael ei wneud yn lleol neu'n genedlaethol. Mae'n cael ei ystyried yn bwysig ar gyfer iechyd

“Heb y rhan gymdeithasol o fy mywyd teimlaf y byddwn yn unig iawn a ddim yn cael yr hwyl a'r atgofion sydd gen i.”

Addysg anffurfiol a sgiliau bywyd

Blaenoriaeth allweddol arall i bobl ifanc oedd addysg anffurfiol a chael cyfle i ddatblygu sgiliau bywyd.

“Mynediad at hyfforddiant - yn enwedig sut i gael swydd, ysgrifennu CVs ac ati. Pethau pwysig mewn bywyd sydd ddim yn cael ei ddysgu i chi yn yr ysgol.”

Roedd un arall yn cytuno gyda'r safbwynt yma ac yn disgrifio sut roedd hyn yn gysylltiedig â chydaddoldeb gwell mewn cymdeithas, megis trwy symudedd cymdeithasol:

“(Dyma) sut mae symudedd cymdeithasol yn digwydd, dyma sut y

mae trawsnewid yr hyn y gall rhywun ei wneud am weddill eu hoes.”

Codwyd addysg hefyd, o ran bod yn ffordd o fynd i'r afael ag anghydaddoldebau a materion cymdeithasol eraill:

“Y gorau y gallwn ei wneud yw addysgu pobl ar LHDTC, materion hil a thlodi.”

Mae sgiliau bywyd wedi codi fel pwnc mewn ymgynghoriadau ieuentid cynt hefyd, er enghraifft gan Senedd Ieuentid Cymru (2019) a Senedd Ieuentid y DU (2018).

Pwysau yn ymwneud â'r amgylchedd, cynaliadwyedd a chyfrifoldeb

Roedd llawer o bryder ynghylch â'r ffaith mai pobl ifanc fydda'n gorfod delio â chanlyniadau newid hinsawdd a gwastraff plastig:

“Yr amgylchedd - argyfwng yr hinsawdd yw'r argyfwng mwyaf sy'n wynebu'r blaned hon ac os na fyddwn yn blaenoriaethu'r amgylchedd ni fydd dyfodol i edrych ymlaen ato.”

Mae'r dyfyniad canlynol yn tynnu sylw at farn un person ifanc am werthfawrogi materion lleol, yn ogystal â materion amgylcheddol byd-eang:

“Yr Amgylchedd - yn ogystal â materion amgylcheddol fydd eang sydd angen mynd i'r afael â nhw, mae yna wastad pethau sy'n agosach at adref y gellir mynd i'r afael arnynt; bywyd gwyllt yn cael ei golli, mae yna nifer o bobl sydd ddim yn gallu enwi llawer o adar a choed a bosib felly eu bod yn fwy digyswllt o ddifrod amgylcheddol.”

Tai

Roedd un o'r rhai cyfwelwyd o'r farn ei bod yn anodd prynu tai yng nghefn gwlad Cymru oherwydd y gyfran uchel o ail gartrefi yn y rhanbarth:

"Mae'n bwysig gallu byw yn rhywle a chael annibyniaeth a ddim byw gyda fy rhieni."

Ategwyd hyn gan un arall cyfwelwyd:

"(Hoffwn i) allu prynu tŷ yn yr ardal lle cefais fy magu"

Roedd tai wedi cael ei godi hefyd wrth drafod y diffyg cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael:

"Mae bron yn amhosib gadael cartref, ac yn anoddach fyth i beidio gorfod rhentu am weddill dy oes."

Mae'r diffyg cyfle i ennill digon o gyllid yn golygu bod pobl ifanc mewn sefyllfa anodd o deimlo fel nad allant fforddio tŷ a chael annibyniaeth.

Ariannu'r celfyddydau

Mae'r celfyddydau wedi bod yn ddihangfa ac yn noddfa i bobl ifanc yn ystod Covid-19.

"Gweithgareddau celfyddydol hygyrch. Rwyf wedi dysgu llawer o wersi bywyd pwysig trwy'r celfyddydau."

Nodwyd y costau cynyddol o gael mynediad at y gwasanaethau yma hefyd.


"Cyllido rhaglenni celfyddydol, yn benodol cerddoriaeth, mewn siroedd - ar lefel ysgol gyfan a ledled y sir."

Rhwng bod ym mlwyddyn pump nes i mi adael yr ysgol, mae wedi newid o bopeth ar gael am ddim i orfod talu am wersi ac offerynnau."

Crynhoi blaenoriaethau pobl ifanc

Roedd llawer o faterion a oedd yn cael eu hystyried yn bwysig i bobl ifanc yn ein hymgyngghoriad. Mae yna lawer o faterion na chodwyd sydd hefyd yn bwysig am resymau eu hunain, ac fel mae'r adran hon wedi dangos yn glir, mae'r ffactorau yma i gyd yn cydbblethu i gyfrannu at lesiant a chyfleoedd bywyd cyffredinol pobl ifanc i symud ymlaen yn eu bywyd fel oedolyn.

Nododd sawl person ifanc nad oedd gwasanaethau'n mynd i'r afael â'u blaenoriaethau, a chodwyd cyfeirio effeithiol fel problem unwaith eto ochr yn ochr â chyllid i fynd i'r afael â blaenoriaethau pobl ifanc yng Nghymru. Mae'r diagram canlynol yn dangos dehongliad y Tim Ymchwil o natur gydbblethol y gwahanol themâu a amlygwyd yn yr ymchwil.



Ffigwr 1. Model cysyniadol drafft o'r themâu allweddol a godwyd gan bobl ifanc

Gwydnwch pobl ifanc

Pan ofynnwyd “Beth wyt ti’n meddwl gallai wella gwydnwch pobl ifanc?” rhai o’r prif awgrymiadau oedd cyfeirio, gwella gwasanaethau, meithrin hunanhyder, gwell cynrychiolaeth a chael rhywun i siarad â nhw.

Mae’r dyfyniadau canlynol yn dangos barn ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt am wella eu gwydnwch. Mynegodd un person ifanc yr angen am fwy o gefnogaeth i gryfhau gallu a safbwynt pobl:

“Gallu personol - peidio pendroni, wedi cyfarpar gyda’r offer i gymryd cam yn ôl. Cael safbwynt newydd ar bethau.”

Cododd rhywun arall y pwysigrwydd o gael cefnogaeth a gwybod bod cefnogaeth ar gael:

“Rwy’n derbyn llawer o gefnogaeth, ac yn gwybod bod yna bobl yno i mi. Mae gwybod eu bod nhw yno yn fy helpu i wella.”

Ategwyd hyn gan rywun arall, o ran hwyluso a grymuso eraill:

“Cefnogaeth ar sut i helpu pobl i helpu eu hunain. Mae atal yn well na gwellhad.”

Codwyd cefnogaeth hefyd mewn perthynas ag anogaeth:

“Byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael anogaeth i ymgymryd â hobiau a diddordebau eraill.”

Ac yn wir, codwyd y natur yr oedd pobl yn cynnig cefnogaeth:

“Yn ddiuedd a ddim yn feirniadol fel y gallwn fod yn agored a siarad â nhw”

Dyweddodd un person ifanc fod hyder yn ffactor pwysig wrth wella ei wydnwch:

“Teimlaf fod angen i mi fagu hyder ac y byddai hyn yn fy helpu i wella fy ngwydnwch.”

Wrth drafod gwella gwydnwch, siaradodd un person ifanc am bwysigrwydd gwella mynediad at wasanaethau gyda chyfeirio:

“(Gwneud) gweithgareddau lles yn fwy hygyrch - ni ddylai bod rhaid i mi gael llwyth o arian neu fod ar bwynt argyfwng cyn i mi dderbyn help.”

Soniodd rhywun arall am yr heriau wynebwyd sydd wedi cyfrannu at eu gwydnwch:

“Rydw i wedi delio â sawl her dros y blynyddoedd, ac wedi dysgu sut i ddod yn ôl o dorcalon, siom a methiant. Mae yfory wastad yno, a dim ond teimlad dros dro yw hwn.”

Gweledigaethau o Gymru y tu hwnt i Covid-19

Gofynnwyd "Pa mor bositif wyt ti'n teimlo am dy ddyfodol y tu hwnt i Covid-19?"

Dangosodd y data fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn bositif am eu dyfodol y tu hwnt i Covid-19.

50%

POSITIF

34%

ANSICR

15%

NEGYDDOL

Roedd dros 50% yn dangos lefel o bositifrwydd ynglŷn â'u dyfodol y tu hwnt i Covid-19, tra bod dros draean (34%) yn ansicr. Roedd llai na 15% naill ai ychydig yn negyddol neu'n negyddol iawn am eu dyfodol. Mae'r canlyniadau'n dangos positifrwydd ac optimistiaeth ryfeddol er gwaethaf y pandemig. Mae'n ddiddorol cymharu'r ymchwil yma â'r hyn sydd i'w weld yn y cyfryngau.

Pan ofynnir iddynt roi manylion pellach am gefnogi blaenoriaethau pobl ifanc, roedd posib gosod ymatebion i un o dri thema:

'Dwyn y baich': Lles ac iechyd meddwl

Soniodd un person ifanc am yr ansicrwydd profwyd yn ystod y pandemig a'r effaith cafodd hyn ar eu lles:

"Mae'r byd yn teimlo mor ansicr ar hyn o bryd, felly mae'n anodd edrych ymlaen yn bositif"

Roedd y gair 'ansicr' yn codi ei ben yn aml yn yr ymatebion, ac roedd Covid-19 yn cael dylanwad mawr ar natur atebion pobl. Siaradodd pobl ifanc am yr effaith o Covid-19 yn ogystal â sawl digwyddiad arall oedd yn cael effaith ar eu bywydau. Gallai hyn awgrymu bod llawer o

bobl ifanc wedi mewnnoli'r farn bod eu cenedlaeth wedi gorfod dwyn y baich o gyfnodau heriol dro ar ôl tro.

"Mae ein cenedlaeth ni wedi cael cymaint o argyfyngau wedi'u pentyrru arnom ni"

Ar nodyn mwy positif, ymddangosai fel bod rhai pobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u cyfarparu'n well nag cenedlaethau eraill pan ddaw at faterion fel lles ac iechyd meddwl. Roedd llawer o'r farn bod angen siarad am faterion iechyd meddwl gyda chyfoedion, teuluoedd ac eraill.

Cynrychiolaeth llais, cael eu 'clywed' a chamwybodaeth

Mae'r ffordd y clywir lleisiau pobl ifanc yn thema allweddol arall a gododd yn y data. Siaradodd pobl ifanc am yr angen i wrando arnynt, fel y dywedodd un:

"Mae bod rhywun yn gwrando a dy fod di'n cael dy glywed yn ddau beth gwahanol"

Yn ogystal â holi os oedd pobl yn gwrando ar lais pobl ifanc o ddifrif, codwyd cwestiynau am y ffordd roedd eu lleisiau yn cael ei gynrychioli. Yn cefnogi'r esiamplau blaenorol, dywedodd un person ifanc mai dim ond pan roedd yn gweddu eraill roedd pobl yn gwrando ar eu barn:

"Gwrandewch ar bobl ifanc. Nid yw pobl ifanc yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn sgysiau sydd yn ymwneud â nhw mewn gwirionedd, ond os ydynt, yna yn hwyrach ymlaen y bydd hyn yn digwydd..."

Aeth y person ifanc ymlaen i awgrymu bod pobl ifanc yn derbyn bai am lawer o faterion yn annheg:

Roeddent hefyd yn cydnabod bod iechyd meddwl yn buddio o gadw ffordd o fyw cytbwys:

"Mae iechyd corfforol yn mynd law yn llaw ag iechyd meddwl."

Soniodd rhywun arall am yr angen i gael gwasanaethau iechyd meddwl gwell:

"Cymorth iechyd meddwl, gwasanaethau cwnsela, CAMHS, rhaglenni hyfforddi athrawon ar sut i ymdrin â materion iechyd meddwl, bydd y gweddill yn dilyn."

"... Hefyd, mae pobl ifanc yn teimlo fel bwch dihangol pan ddaw at rhai pethau."

Siaradodd un person ifanc am eu teimladau ynglŷn â'r ffordd cawsant eu cynrychioli yn dilyn digwyddiadau yn ystod y pandemig:

"Roedd y wasg yn cyfweld â'r bobl fwyaf swnllyd, oedd yn hoff o barti, a'u rhoi nhw ar y newyddion."

Roedd yn amlwg bod pobl ifanc yn teimlo'n rhwystredig gyda chynrychiolaeth eu llais yn y byd ehangach, ac mae'r ddau ddyfyniad uchod yn egluro'r teimlad o anhegrwydd o gael eu trin fel bwch dihangol. Cydnabuwyd hefyd yr effaith o gyfryngau cymdeithasol ar farn pobl ifanc. Teimlwyd bod camwybodaeth yn y cyfryngau cymdeithasol yn ffynhonnell polareiddio ddigroeso mewn cymdeithas:

"Mae pobl yn dod mor asgell chwith NEU mor asgell dde - Mae pobl yn teimlo fel bod rhaid iddynt ddewis un ochr. Yn codi radicaliaeth."

Mae pobl ifanc yn aml yn teimlo fel eu bod yn derbyn llwyth o wybodaeth ac yn ei chael yn anodd hidlo mewn oes o gyfryngau cymdeithasol.

Credwyd bod angen gwneud rhywbeth ynglŷn â'r lefel o wybodaeth anghywir ac effaith cyfryngau cymdeithasol arnynt.

Adnoddau ac osgoi cynnwys pobl ifanc yn docenistaidd mewn penderfyniadau cyllido

Siaradodd ymatebwyr am y ffordd yr oeddent yn teimlo y dylid defnyddio cyllid. Roedd yr ymatebion yma yn debyg iawn i'r adran flaenorol gyda phobl ifanc yn teimlo nad oedd gwrandawriad cyson i'w mewnbyn. Pan ofynnwyd 'Sut y dylid defnyddio cyllid i gefnogi blaenoriaethau pobl ifanc?' siaradodd un person ifanc am y pwysigrwydd bod cyllid yn mynd at y rhai bwriadwyd:

"Gellid defnyddio cyllid yn ddoethach. Mae yna lawer o lefydd sy'n cael cyllid ond nid yw'r arian yn mynd tuag at y bwriad gwreiddiol."

Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi mwy o reolaeth i bobl ifanc wrth benderfynu ble mae cyllid yn cael ei ddyrannu:

"Dylai fod gan bobl ifanc fwy o reolaeth, yn dweud i ble mae'n mynd a phwy sy'n penderfynu ble mae'n mynd."

Roedd yna farn hefyd y gellid cyfeirio cyllid ac arian tuag at gynrychioli lleisiau pobl ifanc yn fwy effeithiol:

"Rwy'n credu y dylid defnyddio cyllid i ariannu clywed lleisiau pobl ifanc. Byddai pobl ifanc yn fwy tebygol o rannu barn tuag at bobl ifanc eraill ac felly credaf y byddai arweinydd pobl ifanc yn flaenoriaeth gyda'r cyllid."

Mae'n amlwg bod pobl ifanc yn teimlo'n rhwystredig gyda'r lefelau y mae pobl yn gwrandao ar eu barn ac yn gweithredu arnynt. Mae'r pwyntiau yma'n ymwneud nid yn unig â chyllid, ond hefyd gyda gwneud penderfyniadau a thrafodaethau yn fwy cyffredinol.

Casgliad

Gan dynnu ar ystod o ddulliau ymchwil, ceisiodd y prosiect ddysgu am farn ystod eang o bobl ifanc ledled Cymru. Roedd lleoliad gwasgarol daearyddol y tîm PIYA ar draws sawl rhanbarth Cymru, yn ogystal â bod yn aelodau o grwpiau amrywiol (ffermwyr ifanc, grwpiau chwaraeon, ceisiwr lloches / ffoaduriaid), yn golygu bod y prosiect yn buddio o gael mynediad unigryw i'r grwpiau yma trwy'r ymchwilwyr cyfoed.

Wrth ganolbwyntio ar weledigaethau Cymru y tu hwnt i Covid-19 roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo'n bositif am eu dyfodol. Pan ofynnwyd iddynt roi manylion pellach am gefnogi blaenoriaethau pobl ifanc, gellid rhannu'r ymatebion i dair thema allweddol. Roedd y cyntaf yn ymwneud â lles ac iechyd meddwl gan ddangos amlygrwydd y thema hon trwy'r ymchwil yn gyffredinol. Roedd cynrychioli llais hefyd yn thema allweddol ac roedd pobl ifanc yn aml yn teimlo nad oedd cysondeb mewn pobl yn gwrandao ar eu barn. Cydnabuwyd hefyd effaith cyfryngau cymdeithasol ar farn pobl ifanc. Yn olaf, mewn perthynas â defnyddio cyllid, mae barn pobl ifanc yn awgrymu y dylid rhoi mwy o reolaeth iddynt wrth benderfynu ble y dylid dyrannu cyllid.

Roedd yr adroddiad ymchwil hwn yn archwiliadol yn ei natur, gan dynnu ar ddulliau ymchwil ansoddol sydd wedi datgelu canfyddiadau diddorol iawn. Fodd bynnag, mae yna lawer o bethau na all yr adroddiad ymchwil hwn honni ei fod. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r safbwyntiau yma yn cynrychioli barn holl bobl ifanc ledled Cymru. Hefyd, mae yna lawer o themâu a materion yn bodoli ym mywydau pobl ifanc sydd efallai ddim wedi'u nodi yn yr ymchwil yma. Fodd bynnag, mae wedi tynnu sylw at y cydblethu sydd yn digwydd gyda llawer o'r materion ym mywydau pobl ifanc yng Nghymru. Efallai bod natur agored a thryloyw'r prosiect ymchwil yma yn darparu ffordd bositif y gall deiliaid pŵer gynnwys barn pobl ifanc a'u gosod ar y blaen wrth wneud penderfyniadau, gan baratoi dyfodol mwy disglair i wella gwydnwch pobl ifanc yng Nghymru. Mae'r adroddiad yma hefyd yn cynnwys camau ymarferol y gellid eu cymryd i wella gwydnwch pobl ifanc gyda chyfeirio gwell, ymyrraeth iechyd meddwl cynharach a gwasanaethau cydgyssylltiedig.

Bydd Meddwl Ymlaen yn dyfarnu £10 miliwn o arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i brosiectau strategol a fydd yn galluogi pobl ifanc i greu dyfodol meddyliol iach a gwydn.

Dysgwch fwy drwy ymweld â cronfagymunedolyg.org.uk/meddwl-ymlaen.